Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**Ysgol Uwchradd Caereinion**
**Llanfair Caereinion**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 0HW**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Lowri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Heledd Thomas | Arolygydd Tîm |
| Yan James | Cynrychiolydd yr awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Uwchradd Caereinion wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Nhachwedd 2013.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, a fydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ymhen rhyw 12 mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

O dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni sy'n cael ei baratoi gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002 gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed yn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 a lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2013, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 ac mae cynnydd cyffredinol wedi bod yn gyfyngedig. Er bod gwelliannau bach wedi'u gwneud er 2013, mae perfformiad yr ysgol wedi'i rhoi yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim ar gyfer llawer o ddangosyddion allweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae data ar gyfer 2016 yn dal i osod yr ysgol yn y 25% gwaelod neu'r 50% is o ysgolion tebyg ar gyfer llawer o ddangosyddion allweddol.

Fe wnaeth perfformiad yr ysgol o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wella ychydig yn 2016, ond mae'n parhau i fod islaw deilliannau wedi'u modelu ac mae hynny'n ei rhoi yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae perfformiad o ran y dangosydd pwnc craidd yn dilyn patrwm tebyg.

Mae data ar gyfer 2016 yn dangos mai dim ond mymryn o welliant a wnaed o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Mae perfformiad yr ysgol o ran y dangosydd hwn wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu ac mae hynny wedi'i gosod yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 yn rhoi'r ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Mae perfformiad yr ysgol o ran trothwy lefel 1 wedi gwella ers yr arolygiad craidd, a 2016 yw'r flwyddyn gyntaf i bob un o'r disgyblion gyrraedd y trothwy hwn.

Er 2013, bu gostyngiad yn y gyfran o ddisgyblion yn ennill pum gradd A*- A TGAU yng nghyfnod allweddol 4. Mae perfformiad yr ysgol o ran y dangosydd hwn wedi bod ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n wan yn gyffredinol.

Fe wnaeth perfformiad mewn Saesneg wella'n sylweddol yn 2016. Hwn yw'r perfformiad gorau yn hanes yr ysgol, ac mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Dirywiodd perfformiad mewn Cymraeg mamiaith yn sylweddol yn 2016. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg, ar ôl ei gosod yn y 25% uchaf am y tair blynedd flaenorol.

Bu gwelliant mewn mathemateg yn 2016. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn dal i osod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn gwyddoniaeth wedi aros yn sefydlog ers adeg yr arolygiad craidd, ac mae'n dal i osod yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad bechgyn o ran bron pob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol o sylfaen isel adeg yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, mae perfformiad merched mewn llawer o'r dangosyddion allweddol hyn wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, er bod gwelliant mewn perfformiad bechgyn wedi arwain at leihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn, gellir priodoli hyn hefyd i'r dirywiad mewn perfformiad merched.

Yn ôl data ar gyfer 2016, mae bechgyn wedi perfformio'n well na merched yn yr ysgol, ac yn unol â bechgyn yn y teulu o ysgolion tebyg, neu'n well, o ran y mwyafrif o ddangosyddion. Fodd bynnag, mae perfformiad merched yn y mwyafrif o ddangosyddion ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer merched yn y teulu o ysgolion.

Mae perfformiad bechgyn o ran dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, wedi cynyddu dros 22 pwynt canran ers yr arolygiad craidd. Mae'r perfformiad hwn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn yn y teulu o ysgolion yn 2016. Fodd bynnag, mae perfformiad merched o ran y dangosydd hwn wedi gostwng bron i 20 pwynt canran ers yr arolygiad craidd, ac mae'n gosod yr ysgol ymhell islaw cyfartaledd y teulu yn 2016.

**Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi rhoi dull ysgol gyfan buddiol ar waith i wella presenoldeb, ac o ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol.

Yn 2016, mae'r gyfradd presenoldeb, sef 95.6%, yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol wedi bod ychydig uwchlaw deilliannau wedi'u modelu a'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y ddwy flynedd diwethaf.

Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella ers yr arolygiad craidd, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg yn 2016. Mae presenoldeb bechgyn a merched wedi gwella hefyd. Fodd bynnag, er bod presenoldeb bechgyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn yn y teulu erbyn hyn, mae presenoldeb merched yn 2016 islaw'r cyfartaledd ar gyfer merched yn y teulu ac islaw bechgyn yn yr ysgol.

Fe wnaeth canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus gynyddu yn 2016, ar ôl lleihau yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Mae'r gyfradd hon ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu ac roedd yn bennaf yn sgil absenoliaeth barhaus ymhlith merched.

Mae data'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol hyd yma yn dangos bod y gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb wedi'i gynnal, ac mae canran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu, yr asesu ac olrhain perfformiad disgyblion**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr wedi cyflwyno systemau a chanllawiau gwell ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, ni wnaed digon o welliannau yn ansawdd yr addysgu, yr asesu ac olrhain perfformiad disgyblion i effeithio ar safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae llawer o arweinwyr yn ymgymryd ag arsylwadau gwersi rheolaidd, a diwygiwyd y ffurflen arsylwi gwersi i ganolbwyntio'n briodol ar safonau disgyblion yn ogystal ag addysgu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi yn arfarnu cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol, ac mae prosesau ar gyfer sicrhau eu hansawdd yn eu dyddiau cynnar.

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant defnyddiol ar asesu effeithiol, ac mae pob un o'r arweinwyr yn craffu ar lyfrau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cymhwyso polisi asesu'r ysgol yn gyson erbyn hyn. Mae'r mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth buddiol i ddisgyblion ynghyd â chyngor penodol ar sut i wella. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon a disgyblion yn defnyddio meini prawf llwyddo yn effeithiol i lunio'u sylwadau. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn ymateb yn adeiladol i asesiadau athrawon. Er enghraifft, maent yn ailddrafftio rhannau o'u gwaith yn fuddiol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywio o hyd yn ansawdd yr adborth o fewn adrannau ac ar draws adrannau.

Mae'r system olrhain disgyblion yn rhoi trosolwg addas i arweinwyr o gynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae arweinwyr yn defnyddio'r data olrhain hyn yn briodol i fonitro cynnydd ac i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn pynciau unigol. Nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da, fodd bynnag, i gael golwg ddigon clir a chynhwysfawr o gynnydd disgyblion yn y dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 4: Gwella cysondeb hunanarfarnu ar draws yr ysgol a sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwella yn cynnwys deilliannau clir a mesuradwy**

Cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Er Medi 2015, mae systemau a phrosesau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u mireinio, ac o ganlyniad, ceir mwy o gysondeb o ran dulliau. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael digon o effaith ar safonau mewn meysydd pwysig fel y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, a chyfran y disgyblion sy'n ennill 5 gradd A*-A mewn TGAU.

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu'n addas eu defnydd o dystiolaeth uniongyrchol o brosesau hunanarfarnu, fel arsylwadau o wersi a monitro gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r calendr diwygiedig ar gyfer gweithgareddau hunanarfarnu yn pennu dyddiadau clir, ac mae ychydig o weithgareddau yn digwydd yn rhy hwyr yn y flwyddyn academaidd.

Mae gan fwyafrif yr arweinwyr canol ddealltwriaeth sicr o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn eu maes cyfrifoldeb. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn cymharu'u perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn defnyddio tystiolaeth o graffu ar lyfrau ac arsylwadau gwersi yn ddigon da i lywio'u barnau ac i nodi meysydd y mae angen eu gwella.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen faith sy'n amlinellu camau priodol yn gyffredinol i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae wedi'i ddiwygio'n briodol i gynnwys manylion fel cyfrifoldebau ac adnoddau, dyddiadau ar gyfer cwblhau a threfniadau monitro. Fodd bynnag, mae'r cynllun datblygu yn cynnwys gormod o flaenoriaethau ac nid yw'n cynnwys deilliannau a thargedau mesuradwy.

Mae'r mwyafrif o gynlluniau datblygu adrannol yn cynnwys targedau mesuradwy a phriodol o heriol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yn cynnwys meini prawf llwyddo priodol, ac nid yw camau gweithredu'n ddigon penodol i wella ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion.

**Argymhelliad 5: Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn darparu mwy o drylwyrdeb a sicrhau gwelliannau mewn safonau.**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn dilyn yr arolygiad craidd, bu cyfnod o ansefydlogrwydd yn yr ysgol ar lefel uwch arweinyddiaeth. Ers penodi pennaeth newydd, parhaol ym Medi 2015, mae'r tîm arwain wedi bod yn fwy sefydlog ac mae lefel yr her i staff a disgyblion i wella safonau a'r ddarpariaeth wedi cynyddu.

Mae arweinwyr ar bob lefel wedi cael arweiniad a hyfforddiant gwerthfawr ar sut i gyflawni'u rolau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth fwy sicr o'u cyfrifoldebau erbyn hyn. Yn ogystal, mae system rheoli perfformiad fwy cadarn ar waith erbyn hyn. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at welliannu mewn meysydd pwysig fel presenoldeb a pherfformiad mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 4, ond nid ydynt wedi cael digon o effaith ar berfformiad mewn dangosyddion allweddol eraill.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm wedi cryfhau systemau arweinyddiaeth yr ysgol ac wedi darparu mwy o gymorth a her i arweinwyr canol. Fodd bynnag, nid yw cydbwysedd rolau a chyfrifoldebau o fewn yr uwch dîm uwch yn gyfartal ar hyn o bryd.

Mae cyfarfodydd rhwng uwch arweinwyr a'u hadrannau cyswllt yn dilyn fformat cyffredin, ac er Medi 2016, cânt eu cynnal yn fwy rheolaidd. O ganlyniad, mae arweinwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am safonau a chynnydd o fewn eu meysydd cyfrifoldeb yn fwy effeithiol erbyn hyn. Er bod lefel yr her yn y cyfarfodydd hyn wedi cynyddu, mae graddau a chadernid yr her yn parhau'n anghyson.

Caiff arweinwyr canol gyfleoedd gwerthfawr i drafod safonau trwy gyfarfodydd adrannol, ac mae mwyafrif yn defnyddio'r rhain yn dda i ganolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae ansawdd ac amlder cofnodion cyfarfodydd adrannol yn amrywiol, ac nid yw arweinwyr bob amser yn nodi camau dilynol priodol y gellir eu gweithredu a'u monitro.

Mae rôl y corff llywodraethol yn datblygu'n dda ac, erbyn hyn, mae'n dwyn uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i gyfrif yn fwy cadarn.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.